



Addysg - Tystysgrif Broffesiynol (TBA) AHO (Rhan-Amser)

Mae'r Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg (PCE PCET) ar gyfer myfyrwyr sydd â chymhwyster pwnc penodol sydd â diddordeb mewn addysgu, sut i ddod yn athro a'r pwysigrwydd i ddysgu rhywun arall. Os ydych chi am ennill cymhwyster addysgu a gydnabyddir yn genedlaethol i weithio ym maes addysg bellach a'r sector ôl-orfodol ehangach.

Ar y cwrs, byddwch yn datblygu eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ymarfer llwyddiannus mewn Addysg Ôl-orfodol a'ch hyder fel ymarferydd proffesiynol.

Mae hwn wedi'i leoli yn adran yr Academi Chweched Dosbarth (SFA).

Mae'r cwrs hwn yn cael ei redeg mewn partneriaeth gyda Prifysgol De Cymru.

Gofynion Mynediad

Cymhwyster Lefel 3 sy'n berthnasol i'r arbenigedd pwnc a TGAU Gradd C neu uwch gan gynnwys Saesneg a Mathemateg. Bydd angen i fyfyrwyr ymgymryd ag ymarfer addysgu o leiaf 70 awr bob blwyddyn a rhaid trefnu hyn cyn cofrestru ar y cwrs.

Disgwylir i fyfyrwyr gwblhau gwiriad sgiliau ar-lein yn y cyfweiliad.

Mae'r rhaglen hon yn gofyn am wiriad DBS gwell, a godir ar gost ychwanegol i'r myfyriwr.

Rhagolygon Gyrfa

Mae gan raddedigion ragolygon gyrfa ym meysydd addysg bellach ac addysg i oedolion, er enghraifft: athro, darlithydd, cynorthwydd addysgu ôl-orfodol neu hyfforddwr astudio.

Modiwlau'r cwrs

Bydd y rhaglen yn cynnwys darlithoedd, seminarau, tiwtorialau a gweithdai ymarferol. Mae'n ofynnol i chi gael

Coleg Afan	01639 648200	Afan College
Coleg Bannau Brycheiniog	01686 614400	Brecon Beacons College
Coleg Castell-nedd	01639 648000	Neath College
Coleg Y Drenewydd	01686 614200	Newtown College



Ileoliad ymarfer addysgu sylweddol yn y ddwy flynedd o astudio.

Bydd yn rhaid i chi gwblhau aseiniadau ysgrifenedig, asesiadau ymarferol, cyfnodolion myfyriol a chyflwyniad poster wrth i chi symud ymlaen trwy'r rhaglen. Bydd eich addysgu yn cael ei arsylwi yn ystod y ddwy flynedd academaidd.

Mae'r modiwlau'n cynnwys: Paratoi i Addysgu, Dysgu a Chymhwyso Addysgeg, Ymarfer Proffesiynol, Rôl TGCh mewn Addysg Bellach, Cymwysiadau Dysgu Cyfunol, Gwella Dysgu, Addysgu ac Asesu.

Asesiad

Bydd gofyn i chi gyflawni aseiniadau ysgrifenedig, asesiadau ymarferol, dyddiaduron myfyriol a chyflwyniad poster wrth i chi symud ymlaen trwy'r rhaglen. Bydd eich sesiynau addysgu yn cael eu harsylwi yn ystod y ddwy flynedd academaidd.

Costau Ychwanegol

Teithio i'ch lleoliad gwaith ac adref. Mae'r rhaglen hon yn gofyn am wiriad manwl gan y DBS a bydd rhaid i'r myfyriwr dalu'r gost ychwanegol.

DULL ASTUDIO

PT

LLEOLIAD

Coleg Y Drenewydd - 01686 614200

Coleg Afan - 01639 648200

HYD Y CWRS

2Y

Coleg Afan	01639 648200	Afan College
Coleg Bannau Brycheiniog	01686 614400	Brecon Beacons College
Coleg Castell-nedd	01639 648000	Neath College
Coleg Y Drenewydd	01686 614200	Newtown College